Sefydliad Materion Cymreig
Institute of Welsh Affairs

Cylchlythyr IWA Mawrth 2007

Digwyddiadau Nesaf

Cheryl Gillan, Llefarydd y Ceidwadwyr dros Gymru, fydd y siaradwraig yng nghinio nesaf yr IWA a gynhelir yng Nghlwb y Parkhouse yng Nghaerdydd ddydd Iau, Mawrth 22; mae tocynnau ar gael o hyd ar ei gyfer (£27.50 i aelodau IWA, £30 i eraill). A hithau'n enedigol o Gaerdydd, cafodd Mrs Gillan yrfa fusnes lewyrchus cyn cael ei hethol i'r Senedd yn Etholiad Cyffredinol 1992 i sedd Chesham ac Amersham yn Swydd Buckingham. Bydd yn siarad am Gymru a'r Ceidwadwyr. Gyda newid Prif Weinidog yn yr arfaeth ac etholiad sydyn yn bosibl os, a phryd, y bydd Gordon Brown yn cymryd yr awennau, mae ei safbwyntiau yn sicr o fod o ddiddordeb.

Bydd digwyddiadau eraill a drefnwyd dros y deufis nesaf hefyd â thema etholiadol iddynt. Ar Fawrth 22 bydd pob un o'r pleidiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli mewn **Dadl Etholiadau'r Cynulliad** a gynhelir gan gangen Gwent yr IWA yng Ngholeg Gwent, Cross Keys, a chynhelir digwyddiad tebyg gan gangen Gorllewin Cymru ar Ebrill 17 ychydig dros bythefnos cyn yr etholiadau yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin.

Bydd ffyniant cyferbyniol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy yn cael eu hastudio mewn cynhadledd a gynhelir gan gangen Gogledd Cymru ddydd Gewner Mawrth 30 yn dwyn y teitl **Cyfleoedd Economaidd Newydd yng Ngogledd Orllewin Cymru**. Y siaradwraig wadd fydd Vanessa Griffith, pennaeth menter Gogledd Cymru i Lywodraeth y Cynulliad. Bydd y siaradwyr eraill yn annerch ar bynciau fel datblygu menter a sgiliau; gwyddoniaeth a thechnoleg fel elfennau sy'n gyrru'r economi yn ei blaen; a chynllunio iaith a datblygu economaidd. Mae llefydd ar gael am £45 am y gynhadledd a chinio.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'n digwyddiadau neu os am archebu, ewch i wefan yr IWA www.iwa.org.uk neu ffoniwch swyddfa Caerdydd ar 029 2066 6606.

Cyhoeddiadau

Bydd rhifyn nesaf *Agenda* yn ymddangos ym mis Mai - ychydig yn hwyrach na'r arfer er mwyn ein galluogi ni i gynnwys nifer o erthyglau hwyr yn cynnig sylwadau ar ganlyniadau etholiadau'r Cynulliad, etholiadau a allai fod â'r canlyniadau agosaf erioed. Bydd y rhifyn fel arfer hefyd yn trafod yr economi, addysg, materion cymdeithasol a materion eraill o bwys i Gymru. Anfonir copïau i aelodau yng nghanol Mai.

Bu'r IWA wrthi dros y misoedd diwethaf yn cynnal ei raglen gyhoeddi brysur gyda dau gyhoeddiad newydd. Mae *Edrych yn Ôl ac Edrych Ymlaen, Rhan y Llyfrgell Genedlaethol ac*

Amgueddfa Cymru yn Stori Cymru, yn gasgliad o'r gyfres o ddarlithoedd a drefnwyd gan yr IWA dros y flwyddyn ddiwethaf i ddathlu canmlwyddiant y ddau sefydliad. (£10 i aelodau, £20 i eraill a £2 post a chludiant). Papur trafod gan John Osmond, Cyfarwyddwr yr IWA, yw *Building the Nation: Creating Internal Political Solidarity*, sy'n astudio effaith refferenda 1979 ac 1997 ar wleidyddiaeth Cymru, y ffordd y gwefreiddiwyd gwleidyddiaeth Cymru a'r ffyrdd y newidiwyd agwedd pobl Cymru ganddynt. Mae'r Papur hefyd yn edrych ymlaen at refferendwm disgwyliedig yn 2011 yng Nghymru.

Cyhoeddwyd astudiaeth yr IWA *Between the Generations: Raising the Profile of Intergenerational Practice in Wales* ym mis Mawrth. Mae'r prosiect, a gynhaliwyd ar y cyd â Chanolfan Cymru ar gyfer Ymarfer Rhwng Cenedlaethau Prifysgol Morgannwg, yn nodi'r ymdrechion sy'n digwydd i ddod â phobl h_n a'r genhedlaeth iau at ei gilydd er lles y naill a'r llall.

Yn ogystal â thrafod materion polisi mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o dri phrosiect arloesol - Theatr Fforwm yng Ngheredigion, The Music and Sound Experience yng Nghonwy, a phrosiect Write-On! Learning through Life ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae copïau o dair cyfrol a gyhoeddwyd yn niwedd 2006 hefyd ar gael o hyd, *Gordon Brown, Bard of Britishness*; *Roaring Dragons, Entrepreneurial Tales from Wales*; a *Time to Deliver: The Third Term and Beyond*.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'n digwyddiadau neu os am archebu, ewch i wefan yr IWA www.iwa.org.uk neu ffoniwch swyddfa Caerdydd ar 029 2066 6606.

Ymchwil

Ymhlith y prosiectau ymchwil sy'n digwydd ar hyn o bryd mae **Living With Our Landscape** (Byw Gyda'n Tirwedd). Bydd y prosiect hwn, a gefnogir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yn cynnwys gwneuthurwyr polisi mewn dadl ynghylch p'un a yw systemau rheoli'r amgylchedd yng Nghymru yn addas at ddiben. Ymgymerir â'r gwaith mewn tair rhan gan arwain at lansio'r prosiect mewn cynhadledd genedlaethol ym mis Tachwedd 2007.

Bydd yr ail brosiect, **The Stern Report and the Challenge for Wales**, yn edrych ar effaith yr adroddiad hwn a gomisiynwyd gan y Trysorlys ar newid yn yr hinsawdd. Mae'n cynnwys trefnu cynhadledd genedlaethol ym Mehefin 2007, a ddilynir gan gyhoeddi cofnodion y gynhadledd. Cynhelir y prosiect ar y cyd â nifer o bartneriaid yn y byd amgylcheddol.

Ym myd addysg mae **Hyrwyddo Addysgu Iaith Gymraeg** yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn adeiladu ar gyhoeddiad ein hadroddiad *Achub yr Iaith* gan Ken Hopkins ym Mai 2006. Amcan y prosiect yw cynnig trosolwg o gymhlethdodau addysgu Cymraeg

a chyfradd derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ystod o wahanol ddarpariaethau mewn ysgolion yng Nghymru - yn y sectorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Mae ail brosiect addysg **Modern Language Teaching in Wales** yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Phwyllgor y DU o'r Sefydliad Diwylliannol Ewropeaidd, ac yn adeiladu ar astudiaeth a gynhaliwyd gan yr SDE ynghylch y galw am, a chyfradd derbyn, addysgu ieithoedd modern yn ysgolion Cymru.

Yn olaf, mae menter arall newydd gan yr IWA, **Academi Iechyd Cymru** bellach wedi ei lansio'n ffurfiol. Tyfodd y syniad am yr academi allan o waith y Grwp Iechyd a oedd yn rhan o'r Proseict Trydydd Tymor a arweiniodd yn ei dro at gyhoeddi *Time to Deliver*. Yr amcan rhwng 2007-09 yw sefydlu'r Academi yn sefydliad ar ei ben ei hun ond sy'n cadw cysylltiad cryf â'r IWA. Cynhelir y gynhadledd genedlaethol gyntaf yng Ngorffennaf 2007 a dilynir hynny wedyn gan gyfres o seminarau â chyhoeddiadau cysylltiedig yn ystod hydref a gaeaf 2007-08.

Mae croeso i aelodau sydd â diddordeb mewn unrhyw un o'r prosiectau ymchwil hyn neu sydd â syniadau am waith ymchwil arall y gallai'r IWA ystyried ei wneud gysylltu â swyddfeydd yr IWA ar 029 2066 6606.

ISO9001

Mae'r IWA wedi llwyddo i gael adnewyddu ei dystysgrif sicrwydd ansawdd ISO9001 yn dilyn archwiliad gan aseswyr allanol. Mae'r dystysgrif yn dynodi bod sefydliad yn cynnig gwasanaethau sy'n cyrraedd y safonau trefniadol uchaf ac o'r herwydd yn cynnig sicrwydd i'r rheiny - gan gynnwys aelodau'r IWA - sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Ymhlith y gweithdrefnau a archwilwyd oedd y ffordd y mae'r IWA yn ymdrin â'r cofnodion aelodaeth, y modd y mae'n trefnu cynadleddau a digwyddiadau a'i brosesau ymcwhil. Disgrifiodd yr archwilydd systemau'r IWA yn rhai cwbl briodol i faint y sefydliad a'i ddigwyddiadau a dywedodd eu bod yn cael eu cynnal i safon rhagorol.

Cymrodyr

Mae gan yr IWA bellach bron i 100 o gymrodyr, a mynychodd bron i hanner ohonynt ginio arbennig yng Nghaerdydd a gafodd ei annerch gan yr Athro David Marquand, y cyn AS Llafur a chyn chef de cabinet Roy Jenkins ym Mrwsel yn ystod ei gyfnod fel Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd. Gwahoddir aelodau sydd â diddordeb dod yn gymrodyr, neu sy'n gwybod am unigolion a allai fod â diddordeb, i gysylltu â swyddfeydd yr IWA.

Yn olaf, hoffai tîm yr IWA yn Stryd yr Amgueddfa gynnig eu dymuniadau gorau am y Pasg i holl aelodau'r sefydliad.